| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **4 GORFFENNAF 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO –THE HARP INN , 80 - 82 STRYD FAWR , BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**<u>CAIS</u>**

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo The Harp Inn, 80 – 82 Stryd Fawr, Bangor LL57 1NS gan ddeilydd y drwydded, Bethan Brown ar ran Harp Inn Limited.
Gwneir y cais er mwyn ceisio am ymestyniad o awr yn ychwanegol , nos Iau, hyd at ( a gan gynnwys ) nos Sadwrn ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig o gyflenwi alcohol a chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio tan 2 o'r gloch y bore. Gofynnir am ymestyn yr oriau cau ar y diwrnodau hyn i 02:30. Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

| **Gweithgaredd trwyddedig** | **Trwydded gyfredol** | **Trwydded arfaethedig** |
|---|---|---|
| **Cyflenwi alcohol** | Llun – Mercher<br>10:00 – 01:00 | Llun – Mercher<br>11:00 – 01:00 |
| | Iau - Sadwrn<br>10:00 – 01:00 | Iau - Sadwrn<br>11:00 – 02:00 |
| | Sul<br>11:00 – 22:30 | Sul<br>11:00 – 23:00 |
| | | |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | Llun – Mercher<br>11:00 – 01:00 | Llun – Mercher<br>11:00 – 01:00 |
| | Iau - Sadwrn<br>11:00 - 01:00 | Iau - Sadwrn<br>11:00 – 02:00 |
| | Sul<br>12:00 – 22:30 | Sul<br>11:00 – 23:00 |
| | | |
| **Oriau agor a chau** | Llun – Mercher<br>10:00 – 01:00 | Llun – Mercher<br>10:00 – 01:00 |
| | Iau - Sadwrn<br>10:00 – 01:00 | Iau - Sadwrn<br>10:00 – 02:30 |
| | Sul<br>11:00 – 23:00 | Sul<br>11:00 – 23:00 |
| | | |

Yn ychwanegol i'r cais am ymestyniad oriau , gofynnir am ganiatâd i ddileu rhai o'r amodau yn Atodiad 2 o'r Drwydded Gyfredol sy'n cyd fynd a'r Atodlen Weithredu ar gyfer y drwydded, fel a ganlyn -

- i archwilio'r toiledau yn rheolaidd
- i gael Cytundeb difa pla mewn lle
- i gael gwared â gwydrau safonol dros gyfnod ; gan eu newid am wydrau gwydn
- i ganiatáu plant yn yr ystafell fwyta hyd at 7 o'r gloch yr hwyr yn unig
- i ddarparu ystafell di – fwg ar gyfer teuluoedd

(gweler copi o’r drwydded gyfredol, sy’n ynghlwm a’r adroddiad hwn.)

**YMGYNGHORIAD**

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Dinas Bangor | E bost - gwrthwynebiad |
| Heddlu | E bost –sylwadau a dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | E bost – sylwadau, dim gwrthwynebiad |

**Gwrthwynebiad – Cyngor Dinas Bangor**
Mae gwrthwynebiad Cyngor Dinas Bangor yn cael ei wneud ar sail yr amcanion trwyddedu o –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Rhwystro niwsans cyhoeddus

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd pryder am leoliad yr eiddo trwyddedig yn agos i eiddo preswyl, ac yn benodol yn agos i anheddau ar gyfer pobl hŷn. Gweler y manylion llawn ynghlwm a’r adroddiad.

**Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu**
Nid yw’r Heddlu yn gwrthwynebu’r cais, ond argymhellir amodau i’w cynnwys ar y drwydded yn dilyn cytundeb gyda’r ymgeisydd mewn perthynas â TCC, Goruchwylwyr Drysau, ac aelodaeth o ‘Pubwatch’. Gweler e bost yr Heddlu ynghlwm am fanylion llawn yr amodau a argymhellwyd.

**Sylwadau ac argymhellion Gwarchod y Cyhoedd**
Nid oes gwrthwynebiad i’r cais , ond fe nodir fod un cwyn sŵn wedi ei dderbyn yn 2012 mewn perthynas â’r eiddo, er nad oedd tystiolaeth bendant i gefnogi’r honiadau.
Argymhellir amodau sŵn i’w cynnwys ar drwydded yr eiddo, fel sydd ar y drwydded gyfredol. Gweler copi o e bost y swyddog Gwarchod y Cyhoedd , ynghyd a’r amodau sŵn perthnasol.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.